Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

12 Ionawr 2017

Annwyl Alun

**Ymchwiliad i Waith Ieuenctid**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr yn ymateb i ohebiaeth y Pwyllgor ynghylch trefniadau cyllido Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (y Cyngor) yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn nad oedd yr ymateb hwn gennych ychwaith yn ymdrin â’r holl gwestiynau a oedd wedi’u cynnwys yng ngohebiaeth gyntaf y Pwyllgor (2 Tachwedd) neu ei ohebiaeth ddilynol (23 Tachwedd).

Fel y nodwch yn eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol eich bod yn ystyried dull newydd o sicrhau cynrychiolaeth a chymorth i’r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol. Roedd cwestiynau penodol y Pwyllgor, fodd bynnag, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r camau a gymerwyd gennych chi cyn rhoi gwybod i CWVYS am eich bwriad gwreiddiol i beidio â rhoi grant iddynt ar gyfer 2017/18. Mae'n siomedig nad ydych wedi ymateb i’r pwyntiau penodol hyn.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol eich bod wedi ysgrifennu at CWVYS yn ddiweddar yn cadarnhau cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid grant iddynt yn awr ar gyfer 2017/18. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn yn fawr iawn, ond mae'n deall bod amodau ynghlwm wrth y cynnig, gan gynnwys yr angen i CWVYS fedru eu cynnal eu hunain yn ariannol. Er ein bod yn gobeithio y byddant yn gallu bodloni’r amodau a bennwyd er mwyn sicrhau cyllid parhaus ar gyfer y

flwyddyn ariannol nesaf, rydym yn pryderu na fydd gan y sefydliad ddigon o amser i gynllunio a gweithredu model sy'n ei alluogi i'w gynnal ei hun cyn y daw cyfnod y grant i ben. Rydym yn gobeithio y bydd eich deialog â CWVYS yn parhau yn y cyswllt hwn.

**Cynghorau Gwirfoddol Sirol**

Mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr, mae'r Pwyllgor yn pryderu'n arw am eich awgrym i sefydlu grant i gynorthwyo'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol i rannu arfer da ym maes gwaith ieuenctid a chreu cysylltiadau rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol. Nid ydym yn credu bod gan y Cynghorau yr arbenigedd na'r profiad perthnasol yn y maes hwn, ac nid yw'n glir sut y byddai'r trefniant newydd yn gweithio'n ymarferol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch amseru'r awgrym hwn, sef cyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, ond yn rhy hwyr i'w fwydo i ymchwiliad y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod hyn wedi'i gynnig yn un o argymhellion yr adroddiad a gynhyrchwyd gan y Drindod Dewi Sant, ond credwn yn gryf y dylech ystyried yr argymhelliad yn ofalus, ac yn ymgynghori â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r sectorau statudol a gwirfoddol cyn rhoi unrhyw gynigion pendant ar waith i sefydlu grant at y diben hwn.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd